Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Bwletin y Pwyllgor
Hydref 2025 – Gwanwyn 2026

## Croeso i’n deuddegfed diweddariad Pwyllgor

Dyma’r deuddegfed bwletin ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau diweddaraf y Pwyllgor a’r gweithgareddau sydd ganddo ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac ymgysylltu ag ef.

Cafodd y bwletin hwn ei baratoi gan y Tîm Clercio sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio’r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt


Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio’r Pwyllgor:
**SeneddEconomi@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar X **@SeneddEconomi**

Gwefan: **www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

## Gwaith Presennol

### Prosesu Bwyd

Gorffennodd y Pwyllgor ei broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i Brosesu Bwyd, gyda sesiwn dystiolaeth lafar olaf wedi'i chynnal ar 24 Medi 2025.

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad hwn tua diwedd tymor yr Hydref, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn nhymor y Gwanwyn 2026.

### Dyfodol Dur Cymru

Parhaodd y Pwyllgor â'i waith parhaus ar y mater pwysig hwn, yn enwedig gyda golwg ar gefnogi'r bobl a gafodd eu diswyddo a chynnydd adeiladu Ffwrnais Arc Trydan (EAF) newydd Tata Steel, ac asedau cysylltiedig, ym Mhort Talbot, yn dilyn cau'r ffwrnais chwyth olaf ar y safle.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth ar 9 Hydref 2025 gyda Tata Steel UK, yn ogystal â chynrychiolwyr o gyrff undebau cenedlaethol a lleol, i glywed y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol.

Dilynwyd y gwaith hwn gan gyfres o ohebiaeth gan y Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cymryd tystiolaeth ar y pwnc yn ystod sesiwn Weinidogol yn nhymor y Gwanwyn 2026.

### Y Gronfa Twf Lleol

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr undydd ar y Gronfa Twf Lleol ar 18 Rhagfyr 2025. Clywyd tystiolaeth lafar ar draws tri phanel, ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi ei allbwn o'r darn hwn o waith yn nhymor y Gwanwyn.

### Mewnfuddsoddi

Lansiodd y Pwyllgor ymchwiliad newydd i Fewnfuddsoddi, a bydd yn dechrau cymryd tystiolaeth yn ei gyfarfod cyntaf yn ôl ar ôl toriad y Nadolig, ar 14 Ionawr 2026.


### Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ar 3 Tachwedd 2025, a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar ei egwyddorion cyffredinol.

Gan weithio o fewn yr amserlen saith wythnos a neilltuwyd ar gyfer craffu, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad byr o 3 Tachwedd 2025 i 17 Tachwedd 2025, a chynhaliodd sesiynau tystiolaeth lafar ar 5 Tachwedd, 13 Tachwedd a 20 Tachwedd. Cafodd y sesiynau tystiolaeth lafar eu hagor a'u cau

gyda sesiynau craffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil), a chlywodd y Pwyllgor gan 16 o randdeiliaid.

Cyhoeddwyd yr adroddiad Cyfnod 1 gan y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr 2025. Bydd Cyfnod 2 yn dechrau yn nhymor y Gwanwyn, yn amodol ar y Senedd yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil.




## Gweithgareddau Diweddar

### Ymweliad â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd

Ar 18 Medi 2025, ymwelodd y Pwyllgor â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd yn Onllwyn, Castell-nedd Port Talbot. Fe wnaethant gyfarfod â chynrychiolwyr y Ganolfan i drafod y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan, a'r effaith economaidd bosibl y gallai'r ganolfan ei chael ar yr ardal leol.

Bydd yr Aelodau'n parhau i gymryd diddordeb yn natblygiad parhaus y safle.



### Bargeinion Dinesig a Thwf

Yn dilyn yr adolygiad byr o Fargeinion Dinesig a Thwf a wnaed yn y tymor blaenorol, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru Llywodraeth y DU ar 17 Medi 2025, yn nodi eu canfyddiadau ac yn gofyn am sylwadau. Daeth yr ymateb dilynol gan Lywodraeth Cymru ar 23 Hydref 2025 a chan Lywodraeth y DU ar 27 Hydref 2025.

## Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Cyhoeddwyd yr adroddiad trawsbwyllgor ar yr Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ychydig cyn dechrau tymor yr Hydref, ar 10 Medi.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r adroddiad hwn ar 29 Hydref 2025, ac ar ôl hynny cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Tachwedd.




## Dadleuon yn y Cyfarfod Llawn

Ar ôl eu cyhoeddi yn nhymor yr Haf, cafodd y Pwyllgor ymatebion gan Lywodraeth Cymru hefyd a chynhaliodd ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiadau ar Ddeallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru, Llwybrau Prentisiaeth a Hybu Cig Cymru.


Cafodd yr ymateb i'r adroddiad Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru ei osod ar 16 Medi 2025, gyda'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal ar 24 Medi 2025.

Cafodd yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Lwybrau Prentisiaeth ei osod ar 19 Tachwedd 2025, gyda'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal ar 26 Tachwedd 2025. Cafwyd ymateb i'r adroddiad hwn hefyd gan Medr ar 7 Hydref 2025.

Cafodd yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Hybu Cig Cymru ei osod ar 26 Tachwedd 2025, gyda'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal ar 3 Rhagfyr 2025. Cafwyd ymateb i'r adroddiad hwn hefyd gan Hybu Cig Cymru ar 22 Hydref 2025.

## Iechyd y Pridd mewn Amaethyddiaeth

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad 'Tyrchu'r tir: Gwella iechyd pridd Cymru' ar 18 Tachwedd 2025, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i chynllunio ar hyn yn nhymor y Gwanwyn.


Senedd Cymru
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Tyrchu'r tir
Gwella iechyd pridd Cymru

Tachwedd 2025

senedd.cymru

## Craffu Cyffredinol

Cynhaliwyd sesiynau Craffu Cyffredinol gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 1 Hydref 2025, a gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar 3 Rhagfyr 2025.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dilyn hyn gyda sesiynau Craffu Cyffredinol terfynol gyda Llywodraeth Cymru yn ymdrin â phob agwedd ar gylch gwaith y Pwyllgor yn nhymor y Gwanwyn 2026.

## Craffu ar y Gyllideb

Craffodd y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 ar 26 Tachwedd 2025, gan glywed tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Rhagfyr, gyda dadl ar y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol.

### Blaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith am weddill y Chweched Senedd. Mae'r rhaglen waith yn nodi amcanion cyfredol y Pwyllgor adeg ei chyhoeddi, ond gall newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol.

Disgwylir i'r gwaith gynnwys Cyfnod 2 y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), yn ogystal â chlywed tystiolaeth lafar yn yr ymchwiliad i Fewnfuddsoddi, a sesiwn Weinidogol ar Ddyfodol Dur Cymru.

Fel y nodwyd, disgwylir rhagor o waith craffu cyffredinol gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Bydd y flaenraglen waith ar gyfer tymor Gwanwyn y Pwyllgor hefyd yn cynnwys gweithio ar ei adroddiad gwaddol terfynol cyn diddymu'r Senedd hon.

## Cylch gorchwyl

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru